

**Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a gynhaliwyd ddydd Iau 14 Mawrth 2013 yn  
Ystafelloedd Eleth ac Eilian**

**Yn Bresennol:**

Y Cyng A M Jones	Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
Mr Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle – Wylfa
Mr Mark Chevis	Swyddog Cyfathrebu Magnox – Wylfa/Trawsfynydd
Ms A Kentish	Rheolwr Cyfathrebu Magnox – Wylfa/Maentwrog/Traws
Mr Mark Thornton	Rheolwr Gwastraff, Safle Wylfa
Michelle Humphreys	Safle Magnox Wylfa
Mrs Karin White	Safle Magnox Wylfa
Mr Tom Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Mr Peter Harrup	NDA
Dr T Davenport	Arolygiaeth Safleoedd (ONR), Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Mr M O'Hara	Aelod o Is-Grŵp Gwastraff GRhS
Miss L Jones	Prosiect Ynys Ynni
Y Cyng William T Hughes	Ward Llanbadrig – Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng Gareth Winston Roberts	Is-Gadeirydd y GRhS (Amlwch Wledig – Cyngor Sir Ynys Môn)
Y Cyng Dylan Jones	Ward Porth Amlwch – Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng Elfed Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Mr Derek Owen	Cyngor Cymuned Bodffordd
Y Cyng J H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Y Cyng Glyn Roberts	Cyngor Cymuned Mechell
Mr A Hall	Swyddog Cynllunio Argyfwng, Dŵr Cymru
Gemma Roberts	Swyddog Cynllunio Argyfwng, Dŵr Cymru
Mr Steve Owen	Heddlu Gogledd Cymru
PC Louise Evans	Heddlu Gogledd Cymru
S Speakman	Amec
Lisa Williams	Babcock International
T Hurford	Horizon Nuclear Power (rhan-amser)
J Dobson	Aelod o'r Cyhoedd
G Warren	Cymdeithas Preswylwyr Porth Llechog

**Ymddiheuriadau**

Dr John Idris Jones	Magnox Wylfa/Ynys Ynni Ynys Môn
Mr R Foxhall	Horizon Nuclear Power
Mr Dylan Williams	Pennaeth Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Ynys Môn
Mr Ieuan Wyn Jones AC	Aelod Cynulliad dros Ynys Môn
Mr Paul Kennedy	Tim Ymbelydredd, Adran Diogelwch Cemegol, FSA
Mr Dave Clarke	Uwch Arolygydd Safle, ONR – Y Swyddfa Diogelwch Niwclear Sifil
Ms Melanie Wymer	Cwmni Ymddiriedolaeth Bodorgan Cyf

Mr Tim Poole	Ymgyrch Cymru Wledig
Mr Steve Roberts	Aelod o'r Cyhoedd
Mrs G Jones	Merched y Wawr
Cllr Thomas Jones	Ward Llanfechell – Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng J V Owen	Ward Parc a Mynydd – Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng K Hughes	Ward Llanfaethlu - Cyngor Sir Ynys Môn
Mr Richard Parry Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Mr Gordon Malcolm	Dirprwy Gyfarwyddwr y Safle/Rheolwr Safle Wylfa
Mr Alan Smith	Horizon Nuclear Power

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Estynnodd groeso cynnes i Dr T Davenport, Arolygydd Safleoedd newydd ONR ar gyfer Wylfa; y cynrychiolwyr o gwmnïau bidio RSRL (Amec/Atkins, y Babcock Fluor Partnership a'r CAS Restoration Partnership – ch2M Hill, Areva, Serco); Aimee Kentish, Rheolwr Cyfathrebu Magnox ar gyfer Wylfa/Maentwrog a Thrawsfynydd; Gemma Roberts o Dŵr Cymru; aelodau o Heddlu Gogledd Cymru; ac Aled Roberts, Aelod Rhanbarthol y Cynulliad dros Ogledd Cymru.

Yr oedd hefyd yn falch o groesawu aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod, gan obeithio y byddent yn parhau i fod â diddordeb.

## 2. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2012

Nid oedd unrhyw ddiwygiadau i'r cofnodion blaenorol. Cynigiwyd y cofnodion fel cofnod cywir gan y Cyng Gareth Winston Roberts ac eiliwyd gan y Cyng William Hughes.

## 3. Materion yn codi o'r Cofnodion blaenorol

Nid oedd dim materion yn codi.

## 4. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

Y digwyddiad mwyaf sylweddol oedd bod unigolyn wedi syrthio ar 28 Rhagfyr 2012 wrth fynd i lawr yr ysgol o'r lori gludo, ar y 'cap peil'. Galwyd ambiwlans ac aethpwyd â'r unigolyn i'r ysbyty lle y canfuwyd ei fod wedi torri ei belfis a'i arddwrn, gan ei fod wedi syrthio ar ei ochr i amddiffyn ei hun. Yr oedd yr unigolyn yn gwella yn ei gartref erbyn hyn. Mae'r dadansoddiad a wnaed fel pe bai'n dangos bod digwyddiadau'n tueddu i ddigwydd i unigolion wrth iddynt wneud gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r digwyddiad hwn wedi arwain at gynllun gwella ar draws y safle, gan iddo ein hatgoffa bod angen bod yn ddifrifol iawn ynghylch iechyd a diogelwch.

Ers i'r rhaglen Trosglwyddo Rhwng Adweithyddion (IRX) gael ei rhoi ar waith ym mis Awst 2012, roedd Wylfa wedi llwyddo i gynhyrchu 1.2TWh o drydan – digon o drydan i wneud 50 biliwn paned o de. Roedd hyn wedi golygu referniw ychwanegol ar gyfer yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, oddeutu £50 miliwn. Roedd newid gwedd IRX wedi ei roi ar waith, a oedd yn golygu cynaeafu



## Site Stakeholder Group

tanwydd o adweithydd dau i'w ddefnyddio yn adweithydd un. Roedd IRX wedi mynd yn dda iawn, gydag adweithydd un yn gorffen y flwyddyn galendr yn gweithredu ar bŵer llawn, ac roedd y safle'n hapus iawn gyda hyn.

O ran tywydd mis Ionawr a'r eira trwm, roedd paratodau'r safle ar gyfer tywydd garw wedi golygu y bwriwyd ymlaen â'r gweithrediadau. Roedd gan y safle gerbydau 4X4 i'w defnyddio, a oedd yn ddefnyddiol iawn, a nododd S Law ei fod wedi derbyn llythyr gan aelod o staff yn diolch i'r safle am edrych ar eu hól yn hystod y cyfnod hwnnw, ac y derbyniwyd hyn yn wresog iawn.

Yn ystod y cyfnod o dywydd oer, canfuwyd dyddodyn cwyradd yn hidlenni'r tanc ar gyfer boeler atodol pedwar. Un noson, canfuwyd bod pwysedd yr olew tanwydd wedi gostwng, ac wedi archwilio'r mater canfuwyd bod gan yr olew tanwydd bwynt plygio ffilter oer uchel (er bod y fanyleb yn gywir, roedd safon yr olew yn anghywir). Fodd bynnag, cymerwyd camau a phrofwyd yr offer ar y safle yn ystod y nos i sicrhau fod popeth yn gweithio.

Cafwyd digwyddiad amgylcheddol pan fu i dancer olew daro yn erbyn llwyfan y bont bwysu. Ni wnaed asesiad a chafwyd gollyngiad bychan. Ychydig iawn o ollyngiad a gafwyd (oddeutu 200ml) ond sylweddolodd y safle y bu bron iawn i hwn fod yn ddigwyddiad sylweddol.

O ran Maentwrog, yr oedd y safle wedi mynd y tu hwnt i'w darged, gan gynhyrchu bron i 61GWh, o'i gymharu â'r targed arferol o 50GWh. Bu'r safle'n brysur yn torri coed ar hyd y bibell gan eu bod yn peryglu diogelwch y gymuned leol ac i sicrhau bod y bibell yn gweithio'n iawn. Mae'r tîm yn awr yn tynnu'r coed sy'n cael eu cludo ymaith gan lorïau. Bu hyn yn llwyddiannus iawn.

O ran ymweliadau, cafwyd sawl ymweliad yn dilyn y gwmp oddi ar y lori gludo. Roedd tri chwmni a oedd yn bidio ar gyfer contract Magnox/Research Sites Restoration Ltd (Harwell a Winfrith) wedi ymweld â'r safle. Yr oedd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) wedi ymweld â'r safle ar 6 Chwefror 2013 er mwyn adolygu gallu'r Wylfa i wagio tanwydd. Roedd Prif Weithredwr NDA wedi ymweld â'r safle ar 11 Mawrth 2013 yn dilyn gwahoddiad gan Gadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle.

Yn dilyn yr adroddiad, estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i Stuart Law, gan egluro mai'r rheswm dros ei absenoldeb o gyfarfod diwethaf y Grŵp oedd oherwydd ei fod yn priodi. Yna, gwahoddodd gwestiynau o'r llawr.

Roedd gan Tom Conway gwestiwn pwysig a anelwyd yn bennaf at yr NDA, yn y gobaiith y gallai cynrychiolydd yr NDA ei ateb yn nes ymlaen. Gofynnodd, gan fod y rhaglen trosglwyddo rhwng adweithyddion wedi golygu oddeutu £50 miliwn o refeniw ychwanegol ar gyfer yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, beth fyddai'n digwydd i'r arian hwn – a fyddai'r refeniw ychwanegol hwn yn mynd tuag at Ddatgomisiynu neu a fyddai'n mynd i'r llywodraeth.

Gofynnodd y Cyng Jac Jones, o ran ymestyn y cynhyrchu, sut yr oeddid yn bwriadu pennu'r union gyfnod cynhyrchu, a beth oedd y strategaeth ar gyfer pennu hynny.

Eglurodd Stuart Law bod ONR yn rhoi caniatâd iddo weithredu hyd at bwynt penodol, ond yn amodol ar adolygiad diogelwch cyfnodol. Gydag ONR yn fodlon, byddai modd gweithredu am gyfnod hwy. Gan wneud defnydd llawn o'r tanwydd, teimlai y byddai modd gweithredu hyd at 2015, gan wneud rhai rhagdybiaethau. Ychwanegodd mai 1.76 TW oedd y targed ar gyfer eleni gyda'r Awdurdod



## Site Stakeholder Group

Datgomisiynu Niwclear ond pwysleisiodd bod y ffigwr hwn wedi dod o achos busnes, a bod y gallu yno i gynhyrchu mwy. Eglurodd bod ei ffigurau yn cynrychioli lefel hyder o 50% o ran cynhyrchu.

Gofynnodd y Cyng Jac Jones – o ran eithafion y tywydd, sut oedden nhw'n sicrhau bod systemau cefnogi ar gael – rydym o hyd yn ymwybodol o eithafion y tywydd, ond ar gyfer pa lefelau y gwneir paratodau? Eglurodd Stuart Law, yng nghyswllt y digwyddiad penodol hwnnw, y dylai fod wedi cwrdd â'r BS. Yn dilyn y digwyddiad, bu'n rhaid i'r tîm ystyried a yw cynlluniau'n cael eu hasesu'n gywir ac a oes angen cynnal gwiriadau pellach. Roedd gwaith ychwanegol wedi'i wneud yn dilyn y digwyddiad hwn.

### **5. Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig. Dywedodd y cynhaliwyd trafodaethau da a'i fod yn sylweddoli bod pawb yn gweithio'n galed tuag at Wylfa newydd.

Nododd bod dogfen ymgynghori'r FSA wedi dod i ben ar 6ed Mawrth.

Ar 18 Ebrill byddai digwyddiad ynghylch contractau yn cael ei gynnal yn Venue Cymru, ac y byddai cyflwyniad yno ar gyfer Grwpiau Rhanddeiliaid Safleoedd. Roedd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi derbyn gwahoddiad.

### **6. Cynnig i ddiwygio Cylch Gorchwyl y Grŵp Rhanddeiliaid Safle**

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan rywun awgrymiadau o ran y cynnig i newid yr aelodau oedd â hawl pleidleisio.

Diolchodd y Cyng Jac Jones i'r Cadeirydd am ddwyn y mater hwn i sylw'r grŵp, yng ngoleuni'r etholiadau ym mis Mai. Fodd bynnag, gofynnodd ai mater i'r corff hwn oedd newid y Cylch Gorchwyl.

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi gwneud y cynnig er mwyn mynd â'r mater o ddwylo'r Cyngor.

Eglurodd y sefyllfa, gan nodi, allan o 7 cynrychiolydd, y byddai un cynrychiolydd o Gyngor Sir Ynys Môn wedi ei enwebu gan y Cyngor, a thri o wardiau Twrcelyn a Thalybolion, a oedd agosaf at safle Wylfa. Teimlai fod hyn yn deg, ac nid oedd unrhyw un arall wedi codi unrhyw gynigion.

Gofynnodd y Cyng Gareth Winston Roberts a oedd y Cyngor Sir wedi ystyried y mater o gwbl, ac fel ateb i hyn nododd y Cadeirydd mai hwn oedd y 'corff sofran' a oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniadau.

Nodwyd ei bod yn bwysig i'r unigolion a oedd yn byw yn yr ardal gael cyfle i gyfrannu.

Roedd pawb yn gytûn, a derbyniwyd y cynnig. Cynigiwyd y diwygiadau i'r cylch gorchwyl gan y Cyng Dylan Jones ac eiliwyd gan y Cyng Will Hughes.

## 7. Diweddariad gan Yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear

Rhoddodd Mr Peter Harrup ddiweddariad ar ran yr NDA. Dechreuodd drwy ateb cwestiwn cynharach Tom Conway, a nododd bod yr NDA bob amser yn ddiolchgar i Stuart Law a'i dîm am eu hymdrechion i gael y referniw mwyaf. Ychwanegodd bod y cyfan yn mynd yn ôl i ddatgomiysynu.

Dywedodd bod Cynghorau Dosbarth Allerdale a Copeland yn Cumbria wedi pleidleisio o blaid parhau yn y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel er mwyn canfod ateb hirdymor i wastraff ymbelydrol uchel ei actifedd y DU, fodd bynnag yr oedd Cyngor Sir Cumbria wedi penderfynu tynnu'n ôl.

O ran proses gystadlu RSRL, yr oedd bidwyr wedi dechrau ymweld â safleoedd unigol i gasglu gwybodaeth a fyddai yn eu cynorthwyo i gynhyrchu eu tendrau terfynol. Yn y cyfamser, yr oedd yr NDA hefyd wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer cynrychiolwyr lleol er mwyn iddynt gyfarfod y bidwyr.

Yr oedd yr NDA wedi penodi Morgan Sindall, un o brif gwmnïau adeiladu a seilwaith y DU, i ddarparu cynllun swyddfa £18 miliwn newydd yn Whitehaven, Cumbria.

Yr oedd yr NDA wedi cyhoeddi cynllun tair blynedd i gefnogi mwy o gyfleoedd ar gyfer busnesau bychain sy'n ceisio gwaith ym marchnad ddatgomiysynu'r DU.

Yr oedd Cyfarwyddwr Anweithredol newydd wedi ei benodi i Fwrdd NDA wedi i Alistair Wivell gwblhau ei gyfnod o bedair blynedd yn y swydd. Yr oedd Tom Smith a raddiodd mewn Cemeg o Rydychen, yn gyn-ddiplomydd a swyddog gweithredol uwch gyda blynyddoedd lawer o brofiad o weithio ar brosiectau seilwaith mawr.

Ym mis Chwefror, yr oedd y llwyth olaf o weddillion tanwydd wedi gadael Chapelcross i'w ailbroesu yn Sellafield. Dyma ddiwedd rhaglen pedair blynedd i ymdrin â thros 38,000 o rodenni tanwydd unigol, a gwblhawyd bedwar mis ynghynt na'r disgwyl.

Mae pumed ran o safle Harwell wedi ei ryddhau'n ffurfiol o'r rheoliadau niwclear olaf a oedd ar ôl, ac y mae ar gael ar gyfer datblygiadau newydd.

Mae'r symudiad cyntaf o ddeunydd 'breeder' o Dounreay i Sellfield wedi ei gwblhau.

Mae'r NDA wedi cyhoeddi penderfyniad i fwrw ymlaen â cham nesaf y prosiect yr Archif Niwclear Cenedlaethol, a fydd yn gweld adeilad newydd pwrpasol yn cael ei adeiladu yn Wick, Caithness, yr Alban, ar gyfer storio cofnodion a deunydd archif arall o safleoedd niwclear sifil y DU am dymor hir. Disgwylir i'r archif ddod â dros 20 o swyddi cynaliadwy i'r dref a chodir yr adeilad ar dir sydd ar hyn o bryd ym mherchnogaeth Cyngor Highland ger maes awyr Wick. Gallai'r prosiect fod yn weithredol yn gynnar yn 2016.

Gofynnodd Tom Conway a oedd Peter Harrup yn teimlo bod Caithness yn safle hygyrch ar gyfer edrych ar gofnodion. Atebodd Peter Harrup, er bod y lleoliad yn un rhan benodol o'r wlad, ei bod yn

bosibl cyrraedd yno drwy gysylltiadau cludiant. Teimlai Tom Conway bod y lleoliad yn sicr o atal pobl rhag mynd yno; fodd bynnag, awgrymodd y Cadeirydd hwyrach y byddai modd cael mynediad at y prosiect yn electronig.

Nododd y Cyng Gareth Winston Roberts ei fod yn falch o glywed am y gefnogaeth i gwmnïau bach gan fod hwn yn fater pwysig i Ynys Môn ac yn wir i Ogledd Cymru. Gofynnodd beth oedd yr NDA yn bwriadu ei wneud. Yr oedd y polisïau yn eu lle, ond sut oedd yr NDA yn bwriadu cyflawni hyn? Awgrymodd y byddai'n syniad da i gynnal seminarau gyda phobl a chwmnïau, a nododd bod gan yr NDA gyfrifoldeb i egluro gweithdrefnau i bobl gan nad ydynt yn gyfarwydd â hwy. Teimlai'n gryf bod y bobl wedi rhoi eu cefnogaeth, a'i bod yn bwysig iddynt hwy gael cefnogaeth yn awr. Crybwyllodd Stuart Law y trafodwyd hyn mewn cyfarfod o'r Ynys Ynni y bu'n bresennol ynddo'n ddiweddar. Ategodd Tom Conway bod angen cymorth ar y busnesau hyn i gael yr ardystiad y mae ei angen arnynt gan fod y costau'n aruthrol – nid yw cwmnïau bychain wedi arfer â hyn ac y mae y tu hwnt i'w gallu. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a dywedodd ei bod yn bwysig gwneud y mwyaf o fanteision lleol.

## **8. Diweddariad gan Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear**

Nododd Tom Davenport nad ef yn bersonol oedd wedi cynhyrchu'r adroddiad, ond croesawodd unrhyw gwestiynau.

## **9. Y diweddaraf gan Is-grŵp Gwastraff GRhS Wylfa**

Eglurodd M Thornton bod y grŵp wedi cyfarfod bedair wythnos yn ôl i drafod materion gwastraff.

O ran malurion cyrydiad yng nghell storfa sych pedwar, cynhaliwyd trafodaethau gyda'r rheoleiddiwr a gofynnwyd i'r grŵp edrych ar opsiynau ('optioneer') i weld beth ellid ei wneud gyda'r gwastraff hwn. Yr oedd chwe opsiwn bosibl ac roeddynt wedi lleihau'r rhain i bedwar. Bydd y prif opsiynau yn awr yn cael eu trafod gyda'r cyfarwyddwr gan fod pob un o'r pedwar opsiwn yn gredadwy.

Estynnodd wahoddiad i'r Cyng Jac Jones ddweud gair neu ddau fel cynrychiolydd y GRhS a ddaeth i archwilio'r broses. Yr oedd y Cyng Jac Jones yn ddiolchgar am y cyfle i allu archwilio'r broses. Yr oedd wedi synnu pa mor drwyadl oedd y broses, ac yr oedd hyn, wrth gwrs, yn golygu y gallai pobl fod â hyder yn y broses. Teimlai bod y tîm yn gweithio'n galed iawn ac yr oedd y cyfan wedi gwneud argraff fawr arno.

Dywedodd M Thornton bod y Strategaeth Ansawdd Tir bellach wedi'i chwblhau.

O ran y Cynllun Gweithredu Gwastraff Lefel Isel, roedd llawer o waith yn cael ei wneud i ddargyfeirio cymaint â phosibl o wastraff o'r storfa, gyda mwy o ymdrech yn mynd i ailgylchu. Nododd eu bod yn defnyddio'r gadwyn gyflenwi i ddefnyddio llosgi oddi ar y safle. Roedd llosgydd newydd wedi ei osod ac yr oedd 55 drwm o wastraff lefel isel wedi ei losgi. Roedd 82 drwm ar ôl i'w llosgi ar y safle yr wythnos ganlynol.

## 10. Diweddariad ar y Cynllun Economaidd-Gymdeithasol

Rhodddwyd diweddariad gan Michelle Humphreys. Roedd y canlynol wedi derbyn cyllid:

- Roedd Ysgol Gynradd Llanfawr yng Nghaerdydd wedi derbyn cyllid ar gyfer ymweliad addysgol â Chaerdydd
- Roedd y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr wedi derbyn £1000 er mwyn cynhyrchu arolwg defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer eu 3,000 o ofalwyr
- Rhodddwyd £500 i sefydlu 'Rainbows' cyntaf Bae Cemaes, i brynu crefftiau a deunyddiau
- Roedd £350 wedi mynd tuag at brynu tlysau a medalau ar gyfer Carnifal Amlwch
- Darparwyd £4,000 ar gyfer sefydlu menter grochenwaith newydd yn Nhyddyn Môn
- Darparwyd £1,000 i Glwb Rhosyr yn Nwyran i brynu offer chwaraeon a choginio ar gyfer plant.

Nododd hi y byddai adroddiad manwl yn cael ei baratoi ar gyfer y GRhS ym Mehefin i ddangos sut yr oedd yr ardal leol wedi derbyn cefnogaeth yn ystod y flwyddyn, ond mai'r cyfanswm ar gyfer y flwyddyn ariannol hon oedd £44,260.

## 11. Fforwm Agored a Sesiwn Holi ac Ateb

Croesawodd y Cadeirydd Aled Roberts, Aelod Cynulliad dros Ogledd Cymru, i'r cyfarfod a gofynnodd a hoffai ddweud gair neud ddau.

Diolchodd ef i'r grŵp am y croeso. Wedi ymweld â'r safle y llynedd, yr oedd ei faint wedi gwneud argraff arno. Cydnabu bwysigrwydd y safle i Ynys Môn a Gwynedd a phwysleisiodd bod yn rhaid i ni wneud y gorau o gyfleoedd. Yr oedd datblygiadau fel Gwynt y Môr, y cynllun dŵr yn Ne Meirionnydd, a phrosiect y Grid Cenedlaethol i sicrhau bod ynni yn cyrraedd y bobl, i gyd yn bwysig.

## 12. Unrhyw Fater Arall

Nododd y Cadeirydd y byddai dau Gynghorydd yn ymddeol yn etholiadau mis Mai – y Cyng J V Owen a'r Cyng G Winston Roberts. Diolchodd iddynt am eu cyfraniad.

## 13. Cyfarfodydd i ddod yn 2013

Nododd y Cadeirydd ddyddiadau'r cyfarfodydd nesaf –

- 6ed Mehefin
- 5ed Medi
- 12fed Rhagfyr

Daeth y cyfarfod i ben am 16.20.